1907-2007

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Datganiad Newyddion

Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif

Dydd Mercher 21 Mawrth 2007

Mewn dogfen a gyhoeddir heddiw, mae Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn amlinellu'r ffordd y mae angen i ysgolion yng Nghymru newid i fodloni anghenion dysgwyr yn yr 21ain ganrif.

Mae'r ddogfen wedi'i hanelu at bawb yng Nghymru sydd am weld addysg yn gwella. Mae'n amlinellu'r sefyllfa gyfredol, pam mae angen i ysgolion newid a llawer o'r prif heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaen.

Trwy adeiladu ar syniadau ac argymhellion a amlinellwyd gan Estyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r ddogfen yn esbonio'r heriau sy'n wynebu Cymru i sicrhau bod gan bob un o'i phlant, ei phobl ifanc a'i hoedolion y medrau sydd eu hangen i lwyddo mewn byd cystadleuol sy'n prysur newid.

"Bydd angen egni ac ymroddiad gan bawb sy'n gysylltiedig i fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu. Bydd angen i ysgolion gydweithio fwyfwy ag ysgolion eraill, colegau, darparwyr gwasanaeth, sefydliadau hyfforddi a gweithleoedd i sicrhau bod dewisiadau ehangach ac ansawdd uchel ar gael mewn cymunedau i gymell ein pobl

ifanc i ddysgu a llwyddo," meddai Susan Lewis, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Yn yr adroddiad, mae Estyn yn archwilio gwahanol agweddau ar ddarpariaeth ysgol, a'r modd y gellir addasu ysgolion i ddarparu dysgu wedi'i deilwra yn ôl anghenion pob unigolyn. Mae newidiadau Estyn yn cynnwys: strwythurau staffio; adeiladau ysgol; yr amserlen ysgol; y cwricwlwm medrau; defnyddio technoleg; ac arferion dysgu ac addysgu.

Mae Estyn yn mynd ymlaen i esbonio y bydd angen i arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion y dyfodol ddefnyddio amser, adnoddau ac adeiladau mewn ffyrdd mwy uchelgeisiol a chreadigol, gan ddefnyddio medrau ac adnoddau eu staff a'u partneriaid cymunedol eu hun i fod yn fwy ymatebol i anghenion y dysgwr a'r gymuned.

Ledled Cymru, mae ysgolion mewn cyfnodau gwahanol o wneud y newidiadau sydd eu hangen i ddod â'n hysgolion i mewn i'r 21ain ganrif. Mae Estyn yn gobeithio y bydd y ddogfen a gyhoeddir heddiw yn arwain at ddadl a thrafodaeth er lles pob dysgwr yng Nghymru.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

Mae adroddiad Estyn "Trawsnewid Ysgolion" wedi'i gyhoeddi yn www.estyn.gov.uk.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Alexandra Doel
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
communications@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464